

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 20fed Mai, 2025, 10.00 am

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Tudor Thomas (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol Jayne McKenna (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards,
Simon Howarth, Jane Lucas, Alistair Neill, Sue Riley, Dale Rooke,
Jackie Strong, Armand Watts

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Linda O'Gorman	Prif Swyddog Trwyddedu
Geraint Edwards	Cynghorydd Cyfreithiol
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Dim

1. Ethol Cadeirydd.

Gwnaethom ethol y Cynghorydd Sir Tudor Thomas yn Gadeirydd.

2. Penodi Is-gadeirydd.

Gwnaethom benodi'r Cynghorydd Sir Jayne McKenna yn Is-gadeirydd.

3. Datganiadau o Fuddiant.

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

4. I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel cofnod cywir:

- Cofnodion yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar 12fed Mawrth 2025.
- Cofnodion yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar 19eg Mawrth 2025.
- Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar 25ain Mawrth 2025.

5. Gwahanu Swyddogaethau Trwyddedu.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Trwyddedu yr adroddiad ar wahanu swyddogaethau'r Pwyllgor Trwyddedu. Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Aelodau am y trefniadau arfaethedig i ailgyflunio swyddogaethau'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio presennol fel y nodir yn yr adroddiad. Y nod yw rhoi cyfle i'r Aelodau geisio cyngor gan y Gyfarwyddiaeth Gyfraith a Llywodraethu ar y trefniadau arfaethedig ac ystyried ceisio cymeradwyaeth i'r cynigion hynny cyn iddynt gael eu hadrodd i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 20fed Mai, 2025, 10.00 am

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/mZLSwpyPPXk?si=CKylu3zGeBo5kf9a&t=455>

Wrth wneud hynny, cytunwyd ar y gwelliannau canlynol i Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau newydd gan y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio:

- Bydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio yn cael ei ddiddymu a bydd ei swyddogaethau LA 2003, GA 2005 a PH(W)A 2017 yn cael eu dyrannu i Bwyllgor Trwyddedu a Gamblo, gyda'r holl swyddogaethau eraill i'r Pwyllgor Tacsis a Rheoleiddio.
- Bydd gan bob Pwyllgor newydd ei Is-bwyllgor ei hun sy'n cynnwys tri aelod, ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd y Pwyllgor rhiant. Bydd gan yr is-bwyllgorau gworwm o dri.
- Ar gyfer materion Trwyddedu a Gamblo (TaG), bydd ceisiadau unigol sy'n dod y tu allan i bwerau dirprwyedig swyddog yn mynd i'r Is-bwyllgor L& TaG i'w penderfynu yn y lle cyntaf. Gall yr Is-bwyllgor barhau i gyfeirio cais at y Pwyllgor L TaG G llawn i'w benderfynu.
- Ar gyfer materion Tacsis a Rheoleiddio, bydd ceisiadau unigol sy'n dod y tu allan i bwerau dirprwyedig swyddog yn mynd i Bwyllgor Tacsis a Rheoleiddio (TaRh) llawn i'w penderfynu yn y lle cyntaf. Gall y Pwyllgor barhau i ddirprwyo penderfyniad cais i Is-bwyllgor TaRh os yw'n dewis gwneud hynny.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid yr argymhellion diwygiedig	- 8
Yn erbyn yr argymhellion diwygiedig	- 1
Ymataliadau	- 1

Roeddem wedi cytuno i:

- (i) Cymeradwyo bod swyddogaethau'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio presennol yn cael eu rhannu rhwng dau Bwyllgor ar wahân, sy'n cynnwys yr un aelodau, i'w henwi'n Bwyllgor Trwyddedu a Gamblo a'r Pwyllgor Tacsis a Rheoleiddio ("y Pwyllgorau") yn y drefn honno
- (ii) Nodi a chymeradwyo y bydd swyddogaethau'r Pwyllgorau a'u His-bwyllgorau priodol fel y'u nodir yn y cylch gorchwyl ar gyfer pob un, fel y'i diwygiwyd.
- (iii) Cyfeirio'r argymhellion at y Cyngor i'w cymeradwyo.

6. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Dydd Mawrth 8fed Gorffennaf 2025 am 10.00am.